## Y GWASANAETH ADDYSG:

## CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD

**Amser:** 8.30am – 10.30am
**Dyddiad:** 11 Mawrth 2018
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 1

# AGENDA DRAFFT

| **Cyf** | **Eitem** | **Categori** | **Yn Arwain** |
|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau a chroeso i'r FfCY | Eitem sefydlog | Cadeirydd |
| 2 | Cofnodion y cyfarfod blaenorol (13eg Mawrth 2020) a materion yn codi: | Eitem sefydlog (papurau wedi'u hatodi) | Cadeirydd |
| 3 | Diweddariad Fformiwla 2020/2021 | Gwybodaeth a Thrafodaeth (cyflwyniad) | Neil Hardee, Rob Green |
| 4 | Diweddariad o ran TGCh | Gwybodaeth a Thrafodaeth (papurau ynghlwm) | |
| 5 | Balansau Ysgolion | Gwybodaeth a Thrafodaeth (papurau ynghlwm) | Neil Hardee, Rob Green |
| 6 | Unrhyw Fater Arall | Eitem sefydlog | Cadeirydd |

Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol: 20.05.2020 (CLG i ddilyn)

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /** This document is available in English

# Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

# COFNODION CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD

**Amser:** 8.30am – 10.30am
**Dyddiad:** 11 Mawrth 2020
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 1, Neuadd y Sir
**Yn bresennol:** Sarah Griffiths - Cadeirydd (SG), y Cynghorydd Sarah Merry, y Cynghorydd Chris Weaver, Y Cynghorydd Joel Williams (JW), Mike Tate (MT), Rob Green (RG), Neil Hardee (NH), David Harris (DH), Angela Jardine (AJ), Andrew Skinner (AS), Nic Naish (NN), John Hayes (JH), Patrick Brunnock (PB), Abigail Beacon (AB), Suzanne Williams (SW), Adrian Dinsmore (AD), Kevin Hart (KH), Ann Griffin (AG), Jane Setchfield (JS), Mari Phillips (MP), David Silver (DS), Karen Dell'Armi (KA), Wayne Murphy (WM), Tracey Stephens (TS), Catherine Power (CP), Sarah Parry (SP), Louise Bloom – Clerc (LB)

**Ymddiheuriadau:** Ian Allwood (IA), Nick Batchelar (NB), Richard Portas (RP), Marc Belli (MB), Jane Marchesi (JM), Ivor Gittins (IG), Sara Allen (SA), Kevin Hart (KH),

| Cyf | **Casgliadau/Camau Gweithredu** | **Pwy** |
|---|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau a chroeso** | |
| 1.1 | Derbyniodd y Cadeirydd ymddiheuriadau, croesawodd yr aelodau a rhannodd y newyddion trist fod Paul Jeffries, aelod hirsefydlog a chyn gadeirydd y Fforwm Cyllideb Ysgolion, wedi marw. Roedd Paul, o Swydd Efrog, yn rhugl o ran y Gymraeg ac yn was cyhoeddus aruthrol; eisteddodd ar y pwyllgor apeliadau derbyn a bu'n Gadeirydd Llywodraethwyr mewn dwy ysgol gynradd. Mynegodd yr Aelodau eu cydymdeimlad â'i deulu. | |
| 2 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi** | |
| 2.2 | Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15[fed] Ionawr 2020 fel cofnod cywir. | |
| 2.3 | <u>Materion yn codi</u><br><br>Nodwyd y canlynol:<br><br>Cofnod 2.4: Cynhaliwyd cyfarfod CATC ar 24[ain] Ionawr gydag un arall i'w drefnu.<br><br>Cofnod 3.1: Mae gwybodaeth am ffigyrau ôl-16 a dosbarthiad yn parhau.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hadborth ar gynigion y gyllideb ac ymateb y Cynghorydd Weaver, a ddosbarthwyd i'r fforwm.<br><br>Cadarnhaodd NH fod neges yn gofyn i ysgolion oedi gwariant TGCh wedi'i | <br><br><br><br>NH |

| | | |
|---|---|---|
| | dosbarthu. | |
| 3 | **Diweddariad Fformiwla 2020/2021** | |
| 3.1 | Dosbarthwyd papurau cyn y cyfarfod.<br><br>Rhoddodd RG gyflwyniad ar y diweddariad fformiwla ar gyfer 2020/21, lle nodwyd y canlynol:<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn creu gweithgor i adolygu dosbarthiad MEAG. Credir bod y cyllid yn annigonol ar hyn o bryd. Cynhelir trafodaethau dros yr ychydig fisoedd nesaf a rhannir gwybodaeth gyda'r fforwm.<br><br>Tynnodd aelod sylw at bwysau ar symudedd disgyblion, wedi'i ddwysáu ag ansicrwydd MEAG ac yn gofyn am ystyried opsiynau symudedd eraill. Cadarnhaodd NH fod symudedd wedi'i gynnwys yn rhan o'r cyllid a byddai'n cael ei adolygu mewn perthynas â MEAG. Bydd yn anfon e-bost yn dilyn y cyfarfod yn gofyn i wirfoddolwyr gyfarfod cyn y Fforwm nesaf ac yn cynnwys dyddiad awgrymedig.<br><br>Yn dilyn ymholiad am y Grant Amddifadedd Disgyblion ac effaith ariannol ar ysgolion, esboniodd RG y byddai lefelau unigol yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio lefelau CYBLD 2019 ar gyfer eleni (gellir defnyddio CYBLD 2020 ar gyfer y flwyddyn nesaf). Bydd NH yn rhannu gydag ysgolion fel ffigyrau dangosol. Achoswyd pryder i aelodau o ran peidio â chael gwybodaeth lawn am werthoedd grant; fodd bynnag, roedd RG yn obeithiol y byddai swyddogion LFM yn gallu cadarnhau gydag ysgolion yr wythnos nesaf. Ymatebodd JS y byddai hynny'n ddefnyddiol i ysgolion i gwrdd â therfynau amser ar gyfer unrhyw geisiadau am gyllideb diffyg.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau am elfen o ddiogelwch i ysgolion mewn perthynas â newid niferoedd disgyblion ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gael ei gyflwyno i fforwm y Consortiwm. Mae angen ffigyrau dangosol i lywio penderfyniadau ar staffio. Tynnodd AJ sylw at y cymorth yn y cyfnod pontio i staff.<br><br>Gwahoddodd NH awgrymiadau gan aelodau ar y fformiwla a nododd y gallai trefniadau trothwy athrawon effeithio'n sylweddol ar ysgolion. Adleisiodd yr Aelodau fod staff mwy profiadol ar raddfeydd cyflog uwch yn fwy costus, roedd arian cyfatebol wedi negyddu'r effaith negyddol ar ysgolion a staff o'r blaen. Rhannodd JS y pryderon, gan dynnu sylw at hyn o bosibl effeithio ar benderfyniadau cyflogaeth a chydraddoldeb, gan effeithio mwy ar ysgolion llai. Cytunodd NH i archwilio sut mae awdurdodau eraill yn rheoli eu trothwyon ac y byddant yn dod yn ôl i'r cyfarfod nesaf.<br><br>Yn dilyn trafodaeth bellach, cytunodd y fforwm i ysgrifennu llythyr at Luke Sibieta ar amrywiaeth o faterion. Bydd NH yn anfon e-bost at aelodau'r Fforwm yn gwahodd materion yr hoffent eu mynegi. | NH<br><br>NH<br><br>NH |
| 3.2 | <u>Ymgynghoriad ar newidiadau i'r fformiwla</u><br><br>Yn dilyn ymholiad gan AJ ar amserlenni ar gyfer ymgynghoriad, cytunwyd ar derfyn amser ar gyfer yr haf, os mai ychydig o ymatebion sydd, gellid ailgyhoeddi'r ymgynghoriad. | |

| 4 | **Diweddariad o ran TGCh** | |
|---|---|---|

4.1 Rhoddodd NH ddiweddariad TGCh a dosbarthwyd papurau ar EdTech, a bydd y papur yn cael ei e-bostio at y fforwm yn dilyn y cyfarfod.

Yn ystod y diweddariad eglurodd y byddai Llywodraeth Cymru yn rhyddhau cyllid ar set o amodau ac amlinellodd y canlynol:

- Mae £1m in weddill i'w wario ar ddyfeisiau.
- Mae'r system Prynu Deinamig wedi lleihau prisiau'n sylweddol.
- Archebwyd 3,000 Chromebook a 1,200 o liniaduron.
- Mae gwariant wedi bod ar ailstrwythuro pob ysgol, ac eithrio ysgolion newydd.
- Disgwylir i’r cit nad yw wedi'i dderbyn eto, gael ei osod erbyn diwedd tymor yr haf.
- Byddai sut i flaenoriaethu dosbarthiad dyfeisiau i ysgolion yn cael ei ystyried.
- Bydd NH yn ail-ddanfon y pro-fforma TGCh i ysgolion, nid yw pob un ohonynt wedi'u dychwelyd eto.
- Bydd archwiliad arall ar brydlesu TGCh yn cael ei gynnal ar gyfer amlygrwydd a chytundeb prydlesu dyfeisiau.
- Cynhelir cyfarfod EdTech nesaf ar 27ain Mawrth, unwaith y byddai'r manylion terfynol yn cael eu hanfon i'r ysgolion.
- Mae 0.5% o'r gyllideb ddirprwyedig wedi'i chadw ar gyfer cyllideb Buddsoddi mewn TGCh ar 1af Ebrill 2020.
- Nid oes hysbysiad eto ar grant blynyddoedd pellach
- Bydd y system Prynu Deinamig ar gael i awdurdodau ei defnyddio.
- Byddai adolygiad Sain a Fideo yn yr ysgol yn cael ei gynnal a'i adolygu

| | | |
|---|---|---|
| | NH yn trafod pryderon a godwyd gyda NN ymhellach ac yn cynnal sgwrs gydag eraill. Pwysleisiodd NH fod TGCh yn rhan o'r seilwaith i helpu i weithredu addysgeg arloesol a byddai gan y gwasanaeth canolog drefniadau llywodraethu gwahanol.<br>· Gofynnodd NN am restr brisio o nwyddau TGCh o'r system brynu ddeinamig i'w cymharu.<br>· Byddai gan ysgolion uwchradd, a gefnogir fel arfer gan reolwr rhwydwaith, fodel TGCh gwahanol. Byddai contract Adobe yn cael ei gynnwys.<br>· Byddai ffocws ar ysgolion cynradd ac arbennig yn gyntaf cyn i fodel uwchradd gael ei archwilio yn 2020/21, a fydd yn barhaus.<br>· Mae cyllidebau CLG TGCh ysgolion wedi'u haddasu o fis Medi ymlaen ac ni fydd ganddynt CLG TGCh craidd mwyach. Byddai un CLG cyfanredol rhwng Addysg a TGCh. Byddai'r CLG craidd yn cynnwys cysylltedd, trwyddedau a gwasanaethau cymorth, gyda'r tîm canolog yn cael ei ariannu o gyllideb ddirprwyedig ysgolion yn hytrach na'r gyllideb ganolog.<br>· Bydd Addewid Caerdydd yn defnyddio arian pellach a dderbynnir yng nghyllideb y Cyngor i ystyried datblygu'r cwricwlwm a chydweithio â hyfforddiant staff.<br>· Byddai arwydd o daliadau tîm TGCh canolog pwrpasol am gymorth ar y safle yn cael ei ddangos yn y CLG.<br>· Mae'r dyfynbris ar wasanaeth wedi cynyddu 40% dros dair blynedd<br>· Rhoddir ystyriaeth i ariannu darparwyr TGCh presennol ysgolion o'r gronfa darparwyr sirol tan fis Ebrill, y dyddiad gweithredu gohiriedig a awgrymir.<br>· Cydnabu'r Cadeirydd fod y mater yn ddadleuol i ysgolion, er mwyn egluro caiff papur briffio TGCh ar gyfer penaethiaid a Chadeirydd y Llywodraethwyr ei ddrafftio a'i ddosbarthu, gan nodi rhai o'r pryderon a godwyd yn y cyfarfod, bydd y papur yn cynnwys diweddariad ar y camau nesaf a'r disgwyliadau ar drefniadau prydlesu, a ragwelir ar gyfer mis Medi ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd.<br>· Nodwyd bod nifer o aelodau yn cefnogi'r uchelgais ond roeddent yn awyddus i sicrhau bod y gweithredu'n cael ei weithredu'n gywir. | NH, MT<br><br><br><br><br>NH<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>NH |
| 5 | Balansau Ysgolion | |
| 5.1 | Rhoddodd RG gyflwyniad ar falansau ysgolion ac eglurodd:<br><br>Bod swyddogion wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd cynhyrchiol gydag ysgolion sydd wedi rhagori ar drothwyon a rhoddwydystyriaeth ar y camau nesaf.<br><br>Tynnodd aelod sylw at y ffaith bod ysgolion Catholig yn talu 15% o'r holl brojectau adeiladu a gofynnodd a fyddai arian yn cael ei hawlio'n ôl a fyddai gohebiaeth yn cael ei rhoi i ddeall hyn? Cytunodd RG, gan esbonio y bydd swyddogion yn ystyried hyn wrth ystyried adfachu. Argymhellwyd sesiwn hyfforddi i'r Pwyllgor Archwilio (i'w awgrymu drwy'r Cynghorydd Joel Williams, aelod o'r Pwyllgor Archwilio) ar sut y caiff ysgolion eu hariannu a'r effeithiau.<br><br>Tynnodd JS sylw at y ciplun o ffigyrau a chymhlethdodau, mynegwyd pryderon bod ysgolion yn dal gafael ar arian y dylid ei wario ar ddisgyblion yn eu gofal ar y pryd, a gofynnwyd a yw'r sgyrsiau hyn yn digwydd, gan mai arian cyhoeddus ydyw. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Esboniodd NH fod ysgolion wedi rhoi amrywiaeth o resymau gan gynnwys cynhyrchu incwm.  Ar y cyfan, maent wedi gwario’r arian a roddwyd iddynt.<br><br>Argymhellodd yr Aelodau y dylid rhannu arfer da o sut y mae arian wedi'i gronni drwy gynhyrchu incwm, a nodwyd mewn balansau dros ben, sy'n ychwanegol at gyllidebau dirprwyedig, gan nodi bod llywodraethwyr yn rhagweithiol wrth ddod o hyd i arian ychwanegol.<br><br>Awgrymodd NN sesiwn holi ac ateb gyda'r Pwyllgor Archwilio a chyhoeddodd wahoddiad iddynt ymweld ag ysgolion.<br><br>Tynnodd y Cynghorydd Merry sylw at y ffaith bod angen i benaethiaid ddeall y byddant yn cael eu herio os caiff gwargedion eu cronni a bod pryderon yn ddilys.<br><br>Tynnodd DH sylw at y diffyg yng nghyllideb Band A, sy'n cynyddu, a gofynnodd iddo gael ei gynnwys gan ei fod yn effeithio ar gyllidebau ysgolion fel rhan o'r cynllun ADY.<br><br>Roedd AJ o'r farn bod gwargedion a ddelir gan ysgolion yn achosi anawsterau gydag ymgyrchoedd ariannu cenedlaethol ac argymhellodd y dylid rhoi cyfathrebu ar ganfyddiadau cyffredin er mwyn cael dealltwriaeth glir.  Cytunodd swyddogion i gasglu mwy o wybodaeth am gynlluniau gwariant a rhannu gyda rhanddeiliaid.  Bydd NH yn cyfleu canfyddiadau cyffredin mewn perthynas â balansau dros ben i Luke Sibieta at ddefnydd cenedlaethol, gan gasglu data hanesyddol.<br><br>Nododd y Cadeirydd fod trafodaethau arbedion yn ystod y flwyddyn yn parhau. | NH/RG |
| 6. | **Unrhyw Fater Arall** | |
| 6.1 | Dim wedi’u trafod. | |
| 7 | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** – 20fed Mai 2020 | |

UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

# Cyllideb Ysgolion a Fformiwla 2020/21
# Fforwm Cyllideb Ysgolion
# 11 Mawrth 2020



Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, working together

CARDIFF
CAERDYDD

# Cynnwys


1. Setliad Terfynol a Thwf Cyllideb Ysgolion
2. Cyllidebau ar y Cyd
3. Newidiadau i Fformiwla 2020/21
4. Grantiau
5. Ystyriaethau Fformiwla'r Blynyddoedd i ddod




# 1. Setliad Terfynol a Thwf Cyllideb Ysgolion

- Rhyddhawyd y Setliad Terfynol ar ddydd Mawrth 25ain Chwefror, ddeuddydd cyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo cynnig cyllideb y Cabinet.
- Ni fu unrhyw newid rhwng y Setliad Dros Dro a'r Setliad Terfynol, o ran cyfanswm y Cyllid Allanol Cyfunol a ddarperir i Gyngor Caerdydd.
- Felly, cynyddodd y Cyllid Allanol Cyfuno gan 4.1%, ar ôl caniatáu ar gyfer grantiau sy'n trosglwyddo i mewn i'r setliad.
- Parhaodd y Cabinet gydag arbediad effeithlonrwydd o 0.5% yn erbyn cyllideb yr ysgol, o'i gymharu â'r effeithlonrwydd o 1% y cytunwyd arno yn ystod haf 2019.
- Yn gyffredinol, roedd twf ysgolion gwerth £12.317m, mewn termau arian parod, wedi'i addasu i £10.423m wrth ganiatáu ar gyfer grantiau sy'n trosglwyddo i mewn.
- Gwerth yr arbediad effeithlonrwydd o 0.5% oedd £1.207m.

# 2. Cyllidebau ar y Cyd

| Cyllideb ar y Cyd | Gwerth Cyfredol | Sefyllfa ar gyfer 2020/21 |
|---|---|---|
| Dileu Swyddi | £1m | Wedi'i gadw ar werth cyfredol |
| TGAC | £1.5m | Gostyngiad o £100 mil i ariannu'r cynnydd sydd ei angen i'r gronfa TGAC ddirprwyedig |
| Iechyd a Diogelwch | £305 mil | Wedi'i gadw ar werth cyfredol – y bwriad gwreiddiol oedd cyflwyno gwasanaeth masnach o 2020/21 |
| Addysg Heblaw yn yr Ysgol | £150 mil | Trosglwyddwyd i gyllideb yr UCD i ariannu dosbarthiadau ychwanegol sy'n cael eu creu i ateb y galw am Addysg Heblaw yn yr Ysgol |
| Cynllun Is-brentisiaethau | £175 mil | Wedi'i ail-gyfuno a'i gynyddu i gyfanswm gwerth £406 mil |
| Prydau Ysgol Am Ddim | £487 mil | Wedi'i ddirprwyo'n llawn i ateb y galw sy'n dod i'r amlwg |
| Unedau Trochi Cymraeg | £70 mil | Cynyddodd gan £80 mil i adlewyrchu'r galw cynyddol am ddarpariaeth |
| Ynni | £11 mil | Trosglwyddwyd y symiau dirprwyedig presennol i gyllideb ar y cyd newydd i ariannu ad-daliadau sy'n gysylltiedig â chynlluniau ynni (cyfanswm o £234 mil o gyllideb ar y cyd) |
| Gwaith Coed / Rheoli Pla | £85 mil | Cynyddodd cyllideb y gronfa gan £150 mil i dalu costau sy'n deillio o ddyfarniadau cyfreithiol ac effaith Gwywiad yr Onnen (swm i'w gadarnhau). |
| TGCh | Dd/B | Cyllideb ar y cyd newydd o £1.937m wedi'i chreu yn unol â'r gofyniad am gronfa TGCh gynaliadwy. |



# 3. Newidiadau i Fformiwla 2020/21

- Rhyddhawyd dyraniadau cyllideb ysgolion unigol ar ddydd Llun 2il Mawrth 2020, gan gynnwys dyraniadau dangosol ar gyfer 2021/22 a 2022/23.
- Dim newidiadau mawr newydd ar gyfer 2020/21.
- Y bedwaredd flwyddyn olaf o newidiadau sy'n effeithio ar ysgolion cynradd ac arbennig – e.e. newidiadau i drothwyon.
- Ar gyfer ysgolion uwchradd, gwnaed newidiadau i adennill UCD a'r Cynllun Prentisiaethau Iau.
    - Bydd adennill UCDau yn dod i ben wrth symud ymlaen, sy'n golygu na chodir tâl ar ysgolion am y ddarpariaeth hon
    - Mae'r gyllideb JA wedi'i hailgyfuno a'i chynyddu, sy'n golygu na fydd angen i ysgolion gyfrannu tuag at y ddarpariaeth hon.
- Gwnaed gwelliannau i'r ffordd y cyflwynir cyllidebau dangosol.

# 4. Grantiau

- Dim ond ar sail Cymru gyfan y mae data ar gael, gan arwain at rywfaint o ansicrwydd.
- Cymorth grant i MEAG a Theithwyr barhau am flwyddyn ariannol arall.  Caerdydd i dderbyn yr un lefel o gyllid ag yn 2019/20.
- Mae’r GGYCRh wedi cynyddu'n gyffredinol, gan £12.5m, ond mae hyn yn cynnwys y Grant Dysgu Proffesiynol, sydd wedi trosglwyddo i mewn. Credir y gallai'r GDP fod wedi'i ostwng i £12m, ond nid yw hyn wedi'i gadarnhau.
- Grant Amddifadedd Disgyblion – nid yw'n glir pa set ddata CYBLD a ddefnyddir i ddosbarthu cyllid.
- Grantiau newydd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (£7m), Addysg Ddewisol yn y Cartref (£1.5m) a Brecwast Maethlon (£835 mil). Manylion eto i'w derbyn.
- Mae cyllid ôl-16 wedi cynyddu gan £1.1m yn gyffredinol, gyda dyraniad Caerdydd yn cynyddu gan £1.296m (10.92%), y mae'r rhan fwyaf ohono'n ymwneud â chyllid cyflog/pensiwn yn trosglwyddo i mewn.
- Grant Mynediad y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cynyddu gan £3.2m ar lefel Cymru gyfan.

# 5. Ystyriaethau Fformiwla'r Blynyddoedd i ddod

| Elfen | Mater |
|---|---|
| Atgyweiriadau | Mae dyraniadau atgyweiriadau yn seiliedig ar ffigwr yr arolwg cyflwr hanesyddol, ar adeg benodol. Felly, nid yw'n ystyried ysgolion sydd wedi cael buddsoddiad yn yr adeilad. Fodd bynnag, nid yw ychwaith yn caniatáu ar gyfer ysgolion, y mae angen iddynt ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ataliol wedi'i gynllunio, yn dilyn adeilad newydd neu waith adnewyddu sylweddol. Felly, rhoddir ystyriaeth i ddyraniad a yrrir gan fformiwla, a fyddai'n caniatáu i ysgolion sydd ag adeiladau o bob amod. |
| Cytundebau Lefel Gwasanaeth | Ar hyn o bryd yn seiliedig ar wybodaeth wir a hanesyddol. Dylid ystyried cyfandaliad yn seiliedig ar fandiau/ystodau niferoedd disgyblion. |
| Cyfandaliadau | Nid yw ar hyn o bryd yn talu am gost graidd gweithredu ysgol. Angen ystyried cynyddu cyfandaliad ond hefyd cyflwyno elfen amrywiol i'r cyfandaliad, gan ystyried maint yr ysgol. |
| Cynnal a chadw'r tir | Yn seiliedig ar wybodaeth hanesyddol. Anodd gwneud dyraniadau i ysgolion newydd. Dylid ystyried dull mwy fformiwläig. |
| ADY/TGAC | |
| | |

UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

# Diweddariad o ran Balansau Dros Ben
# Fforwm Cyllideb Ysgolion
# 11 Mawrth 2020



Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, working together

CARDIFF CAERDYDD

# Cynnwys


1. Cefndir
2. Cyd-destun Caerdydd
3. Trosolwg o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd
4. Themâu sy'n dod i'r amlwg
5. Y camau nesaf…




# 1. Cefndir

- Mae Rheoliadau Ariannu Ysgolion (2010) yn caniatáu i awdurdodau lleol weithredu mewn perthynas â balansau ysgolion dros ben os ydynt yn fwy na £50 mil (cynradd) a £100 mil (uwchradd/arbennig).
- Gall ALlau naill ai gyfarwyddo i wario neu adfachu balansau gormodol.
- Yng Nghaerdydd, cyflwynwyd trothwyon lleol:
  - Ysgolion cynradd - yn seiliedig ar 4% o ddyraniad fformiwla, lleiafrif balans o £50 mil, uchafswm o £100 mil.
  - Ysgolion uwchradd/arbennig – yn seiliedig ar 4% o ddyraniad fformiwla, lleiafrif balans o £100 mil, uchafswm o £200 mil.
- Nid yw Caerdydd erioed wedi adfachu balansau gormodol o ysgol.



## 2. Cyd-destun Caerdydd

- Amlinellir cyfanswm balansau ysgolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn y tabl isod:

| Cam | 2016/17 | 2017/18* | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| Cynradd | (£5.236m) | (£6.914m) | (£5.522m) |
| Uwchradd | £1.601m | £0.496m | £0.557m |
| Amgylchiadau | (£0.608m) | (£0.901m) | (£0.693m) |
| **Cyfanswm** | **(£4.243m)** | **(£7.319m)** | **(£5.658m)** |

* Tua diwedd 2017/18, dosbarthodd Llywodraeth Cymru £1.4m o gyllid atgyweirio i ysgolion unigol.

- Bob blwyddyn, gofynnir i unrhyw ysgol sydd â balans gormodol amlinellu'r rhesymau dros gadw'r balans a'r cynlluniau ar gyfer defnyddio'r balans.
- Yn ystod 2018/19, cyfarwyddwyd 18 o ysgolion (17 cynradd, 1 arbennig) a oedd â balansau gormodol am o leiaf dair blynedd yn olynol i'w gwario.
- Ar ddiwedd 2018/19, roedd pedwar wedi lleihau eu balansau o fewn y trothwyon hynny.



# 3. Trosolwg o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd

- Roedd gan y Pwyllgor Archwilio a gyfarfu yn ystod mis Medi 2019 ddiddordeb arbennig mewn balansau ysgolion.
- Mewn ymateb i'r materion a godwyd yn ystod y Pwyllgor Archwilio, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r ysgolion hynny nad oeddent wedi lleihau eu balansau yn unol â'r cyfarwyddyd i wario.
- Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn yn ystod hydref 2019 a dechrau 2020.
- Roedd y cyfarfodydd yn cynnwys cynrychiolwyr Cyllid ac Addysg, y pennaeth ac, yn y rhan fwyaf o achosion, cadeirydd y llywodraethwyr.
- Gofynnwyd i ysgolion amlinellu eu rhesymau dros barhau i ddal balansau gormodol a dywedwyd wrthynt y gall balansau gormodol cael eu hadfachu, ar 31ain Mawrth 2020.
- Rhoddwyd cyfle i ysgolion ddarparu defnydd cynlluniedig/posibl o'r balans.

# 4. Themâu sy'n dod i'r amlwg

Roedd y trafodaethau'n amrywio rhwng ysgolion, ond roedd themâu amrywiol yn dod i'r amlwg.

- Gwargedion yn cael eu defnyddio i gydbwyso'r gyllideb yn 2019/20
- Ansicrwydd ynghylch dyraniadau cyllideb y flwyddyn i ddod a'r tymor canolig
- Projectau adeiladu a oedd wedi'u gohirio (yn aml oherwydd RhC) neu a gynlluniwyd ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ar ôl cronni digon o adnoddau
- Amgylchiadau yn ystod y flwyddyn, yn enwedig o ran staffio – e.e. beichiogrwydd
- Rheoli absenoldeb a defnydd o gyflenwad yn dda
- Gwerth da am arian yn cael ei sicrhau gan rai ysgolion
- Arian grant ychwanegol annisgwyl neu incwm secondio
- Pryder ynghylch adfachu posibl gan yr ALl
- Arian TGCh gan Lywodraeth Cymru sy'n golygu na fydd rhai ymrwymiadau'n mynd rhagddynt

# 5. Y camau nesaf…

- Mae diwedd blwyddyn ariannol 2019/20 yn darparu'r porth nesaf wrth reoli balansau ysgolion.
- Cynigir y bydd unrhyw ysgol sy'n dal yn uwch na'r trothwyon y cytunwyd arnynt yn cael y balans ychwanegol wedi'i adfachu – byddai hyn naill ai'n cael ei wneud fel rhan o'r cau ar ddiwedd y flwyddyn, neu drwy gyfnodolyn/anfoneb yn gynnar yn y flwyddyn ganlynol.
- Ni fyddai'r amseru'n ddelfrydol, gan fod ysgolion wrthi'n pennu eu cyllidebau ar gyfer 2020/21.
- Bydd y balansau sy'n cael eu adfachu yn cael eu cadw am gyfnod, yn fwyaf tebygol tan ddiwedd y flwyddyn academaidd.
- Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2020/21, bydd angen i ysgolion gyflwyno cynigion ar gyfer defnyddio eu balans gormodol a thynnu'r cyllid i lawr.
- Bydd yr un broses yn cael ei hailadrodd ar gyfer ysgolion sydd wedi'u cyfarwyddo i'w gwario yn ystod 2019/20.





UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD